



Y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd

Cyfarfod Uwchygyfeirio

Cyfarfod dros Microsoft Teams

29 Mawrth 2022

Yn bresennol	
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau	
Helen Bennett (HB)	Ymgynghorydd Iechyd Meddwl
Suzi Graham (SG)	Swyddog Polisi ac Ymchwil
Hannah Jenkins-Jones (HJJ) (CADEIRYDD)	Arweinydd Strategol (Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb)
Lisa Morgan (LM)	Swyddog Polisi (Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant)
Claire Perrin (CP)	Swyddog Polisi (Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant)
Nia Scourfield (NS)	Swyddog Cymorth Llywodraethu
Jayne Woodward (JW)	Arweinydd Strategol (Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth)
Heddlu De Cymru	
Y Dirprwy Brif Gwnstabl Rachel Bacon (RB)	Y Dirprwy Brif Gwnstabl
Yr Uwch-arolygydd Matthew Codd (MC)	Pennaeth Gweithrediadau,
Y Prif Arolygydd Dave Gordon (DG)	Pennaeth Cyfiawnder Troseddol
Y Prif Uwch-arolygydd Joanna Maal (JM)	Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol
Caroline Smart (CS)	Pennaeth Rheoli Corfforaethol
Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol David Thorne (DT)	Pennaeth Troseddau Arbenigol
Carol Woodward (CW)	Rheolwr Sicrwydd ac Arolygu

Rhif	Eitem	Cynnwys
1.	Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau	1.1 Croesawodd HJJ y rhai a oedd yn bresennol a gwnaed y cyflwyniadau. Ar yr achlysur hwn, byddai HJJ yn cadeirio'r cyfarfod am fod LJ wedi anfon ei ymddiheuriadau am fethu â bod yn bresennol oherwydd salwch. Croesawodd HJJ Swyddogion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, sef CP ac LM, i'r Bwrdd.
2.	Cofnodion y cyfarfod at Wraidd y Mater blaenorol	2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir. Cytunwyd y byddai'r camau gweithredu'n cael eu trafod yn ystod y cyfarfod.
3.	Camau Gweithredu a Diweddariadau'r cyfarfod blaenorol – Marcwyr Iechyd Meddwl – Paneli Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys	<p>3.1 Rhoddodd HJJ drosolwg o'r adroddiad a drafodwyd yn ystod y cyfarfod diwethaf a oedd yn ymwneud â phryderon ynghylch marcwyr iechyd meddwl ar Niche, yn benodol nad oedd unrhyw derfynau amser na dyddiadau adolygu a'r goblygiadau a allai fod iddynt o ran dyfodol pobl. Nododd DT fod cynnydd wedi'i wneud yn y maes hwn ers y cyfarfod diwethaf a bod grŵp gorffenn wedi'i sefydlu. Cytunwyd y byddai'n gwaith yn cael ei wneud o dan nawdd y Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth ac y byddai marcwyr eraill sy'n peri pryder hefyd yn rhan o'r gwaith. Nododd DT fod yr Heddlu hefyd yn cydnabod y byddai angen i'r grŵp hefyd lunio polisïau a gweithdrefnau i wneud y gwaith hwn er mwyn sicrhau bod marcwyr yn cael eu hadolygu a'u harchwilio.</p> <p>3.2 Gofynnodd JW a fyddai'r grŵp a sefydlwyd yn ystyried marcwyr hanesyddol ac a fyddai staff yn cael hyfforddiant o ran y defnydd a wneir o farcwyr ac ar sut i'w defnyddio'n briodol yn y dyfodol. Cadarnhaodd DT y byddai hyn yn rhan o'r polisi a'r arferion yn y maes gwaith hwn. Gofynnodd CP a fyddai marcwyr eraill yn cael eu cynnwys yn y darn hwn o waith a chadarnhaodd DT y byddai'r ffocws cychwynnol ar gam-fanteisio ar blant yn rhywiol. Fodd bynnag, roedd marcwyr iechyd meddwl bellach wedi'u blaenoriaethu ond cadarnhaodd y byddai sawl marciwr a oedd yn ymwneud â bod yn agored i niwed yn cael eu hystyried. Nododd HB y byddai'n fodlon cymryd rhan yn y maes gwaith hwn.</p> <p>3.3 Gofynnodd HJJ i MC roi diweddariad ar y ffaith nad oedd unrhyw resymau dros ddefnyddio datrysiadau y tu allan i'r llys wedi'u cofnodi ar Niche ac ar y pryderon ynghylch defnyddio datrysiadau adferol ar y stryd, a drafodwyd yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd. Nododd MC fod proses lywodraethu strwythuredig ar waith lle roedd unrhyw achosion o uwchgyfeirio materion yn cael eu hadolygu a'u monitro, a bod hyn yn cynnig cyfle i ddsygu. Nododd MC ei fod yn aelod o'r gweithgor cenedlaethol mewn perthynas â dulliau adferol. Nododd MC hefyd fod yr Heddlu yn gweithio i greu porth data lle y byddai staff yn gallu cael data ar ddulliau adferol a thaith dioddefwyr. Gofynnodd JW pa fath o hyfforddiant gloywi a fyddai'n cael ei ddarparu i swyddogion a beth roedd yr Heddlu yn gobeithio ei gyflawni drwy ddarparu'r hyfforddiant hwn. Nododd MC fod yr Adran Dysgu a Datblygu yn datblygu cyfres o fideos er mwyn darparu arweiniad a chymorth ac y byddai polisi'r Heddlu yn yn cael ei ddiweddarau mewn perthynas â dulliau adferol. Gofynnodd JW a HJJ a oedd pwysau cynnil ar swyddogion i ddefnyddio dulliau adferol er mwyn cael canlyniad cadarnhaol. Nododd MC fod yn rhaid i'r canlyniad ganolbwyntio ar y dioddefwr a bod pob dull adferol yn destun gwaith craffu er mwyn sicrhau ei fod yn addas.</p>

		<p>3.4 Cyfeiriodd HJJ at yr achosion a nodwyd yn yr adroddiad a holodd am rôl y goruchwyliwr gan ofyn a oedd yn monitro achosion i gadarnhau bod y dulliau adferol wedi'u defnyddio'n briodol. Nododd MC fod rhestr wirio y byddai goruchwylwyr yn gweithio drwyddi er mwyn sicrhau bod swyddogion wedi dewis y dull cywir ac y byddai'r gweithgor yn craffu ar y rhain. Gwnaed y pwynt y gallai fod angen mwy o ffocws ar hyn am fod y materion a godwyd yn yr achosion wedi awgrymu nad oeddent wedi cael eu monitro gan oruchwyliwr. Gofynnodd CP a oedd canllawiau diweddar y Coleg Plismona wedi'u dosbarthu i swyddogion, mewn perthynas ag arfer disgresiwn i ddefnyddio datrysiaidau y tu allan i'r llys. Roedd MC o'r farn bod canllawiau'r Heddlu yn addas at y diben ac mai proses gyfathrebu symlach oedd y flaenoriaeth ar hyn o bryd.</p>
4.	<p>Diweddariad trosolwg ar yr Adroddiad Sicrwydd Busnes – 2021/22 Crynodeb o'r Argymhellion</p>	<p>4.1 Trafododd y Bwrdd y broses o sut roedd diweddariadau yn cael eu ceisio a'u derbyn rhwng tîm y Comisiynydd a'r Heddlu mewn perthynas â gwaith y Bwrdd. Cytunwyd y byddai SG yn gofyn am ddiweddariadau ar y cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran Argymhellion gan CW bob tri mis ac y byddai NS yn gofyn am ddiweddariadau ar gamau gweithredu.</p> <p>4.2 Trafododd HJJ y cynnydd a oedd wedi'i wneud o ran yr Argymhellion o gyfarfodydd at wraidd y mater y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd a gynhaliwyd y llynedd. Gofynnodd HJJ am ddiweddariad ar yr argymhellion o'r cyfarfod at wraidd y mater ar Amddiffyn Plant mewn perthynas â chwblhau Hysbysiaidau Diogelu'r Cyhoedd yn gywir ac yn fanwl. Nododd DT fod Grŵp Aur yr Heddlu wedi bod yn monitro perfformiad Hysbysiaidau Diogelu'r Cyhoedd am y 18 mis diwethaf a bod model canolog yn cael ei sefydlu. Nododd DT hefyd fod yr Heddlu wedi llwyddo i leihau nifer yr Hysbysiaidau Diogelu'r Cyhoedd nas cwblhawyd. Gofynnodd HJJ am ddiweddariad pellach mewn cyfarfod yn y dyfodol a chyfeiriodd at yr argymhelliad y dylid dip-samplu Hysbysiaidau Diogelu'r Cyhoedd a rhannu'r canfyddiadau â'r Bwrdd. Gofynnodd RB a oedd cyfle i dîm HJJ gael diweddariadau o brosesau presennol yr Heddlu, gan gynnwys cofnodion y Grŵp Aur, gan y byddai'n rhain yn cynnwys diweddariadau a gwybodaeth. Cytunwyd y byddai hyn yn fuddiol a gofynnodd RB i CW rannu'r rhain â thîm HJJ.</p> <p>*CAM GWEITHREDU (1)* - Cofnodion y Grŵp Aur i'w rhannu â thîm y Comisiynydd mewn perthynas â monitro Hysbysiaidau Diogelu'r Cyhoedd.</p> <p>4.3 Cyfeiriodd HJJ at yr Argymhellion o'r cyfarfod at wraidd y mater a drafodd Rôl Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu a chadarnhaodd fod y rhain wedi'u huwchgwyfeirio at Fwrdd Strategol y Comisiynydd a oedd wedi'u trafod. Awgrymodd HJJ, o ganlyniad i'r Bwrdd, ei bod yn debygol bod yr argymhellion hyn bellach wedi'u cwblhau ac y gellid eu cyflawni'n ffurfiol ond gofynnodd am ddiweddariad terfynol fel cadarnhad. Nododd JM fod manylion cyswllt wedi'u darparu rhwng cynghorwyr ac aelodau allweddol o gymunedau a'u bod wedi cael eu pwysleisio ym mhob Uned Reoli Sylfaenol. Nododd JM fod hyn hefyd yn rhan o'r broses barhaus o ailalinio plismona yn y gymdogaeth a'i fod yn cynnwys pob un o'r argymhellion a nodwyd yn ystod y cyfarfod at wraidd y mater. Cytunodd HJJ y byddai'r argymhellion ar y pwnc hwn yn cael eu cyflawni felly a diolchodd i'r Heddlu am ymdrin â'r mater hwn mewn ffordd gadarnhaol. Pwysleisiodd fod gan y Comisiynydd ddiddordeb mawr yn y pwnc hwn o hyd ac awgrymodd felly y gellid ei ailystyried rywbryd i weld sut roedd y strwythurau newydd yn ymsefydlu.</p> <p>4.4 Cyfeiriodd HJJ at yr argymhellion o'r cyfarfod at wraidd y mater ar droseddau'n ymwneud â chyllyll a chadarnhaodd fod disgwyl i gyfarfodydd gael eu cynnal yn yr wythnosau i ddod er mwyn trafod y rhain. Nododd DT fod yr Heddlu yn gweithio ar yr argymhellion o dan</p>

		system lywodraethu wedi'i thrawsnewid gan gynnwys y Grŵp Llywodraethu Trais Difrifol, a ehangodd ei gwmpas yn ddiweddar i bedwar maes ar wahân gan gynnwys, troseddau'n ymwneud â chyllyll, lladrad, trais difrifol ymhlith pobl ifanc a'r economi liw nos .
5.	Cynllunio Gwaith Craffu yn y Dyfodol 2022	<p>5.1 Nododd HJJ y byddai tîm y Comisiynydd yn trefnu diwrnod hyfforddi ar y cyd a fyddai'n cael ei hwyluso gan ymgyngorwyr allanol i aelodau o'r Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd. Nod y diwrnod hyfforddi fyddai cael mewnbwn ar egwyddorion craff a'i ddefnyddio i drafod y ffordd orau o gysoni a datblygu prosesau presennol.</p> <p>5.2 Gofynnodd CW a ellid rhannu themâu cyfarfodydd at wraidd y mater yn y dyfodol â'r Heddlu. Nododd HJJ y byddai'n datblygu'r rhaglen Graffu ar gyfer y flwyddyn i ddod yn ystod yr wythnosau nesaf ond cadarnhaodd fod y rhaglen ar gyfer y flwyddyn bresennol yn para tan fis Mai 2022. Byddai'r cyfarfod at wraidd y mater nesaf ym mis Mai yn trafod Twyll. Y gobaith oedd y gallai'r diwrnod i ffwrdd a oedd ar fin digwydd gynnig cyfle i drafod pynciau ar gyfer y rhaglen flynyddol nesaf ymhellach.</p>
6.	Diweddariad ar y Ddarpariaeth Adnabod Wynebaw Awtomataidd (AFR)	<p>6.1 Roedd adroddiad wedi'i ddsbarthu i aelodau'r Bwrdd er mwyn rhoi diweddariad ar y ddarpariaeth AFR bresennol a nodwyd hyn. Awgrymodd HJJ y dylid rhoi diweddariad i aelodau Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu ar y ffordd roedd AFR yn cael ei ddefnyddio mewn rhai o'r ffyrdd newydd a nodwyd yn yr adroddiad. Er enghraifft, cyfeiriodd yr adroddiad at ddefnyddio AFR mewn achosion lle na roddodd pobl eu manylion a nododd HJJ ei bod yn annhebygol bod unrhyw wybodaeth am y fath ddefnydd o AFR wedi cael ei darparu o'r blaen. Gofynnodd a allai'r defnydd newydd hwn godi pryderon ychwanegol ar gyfer y cyhoedd.</p> <p>6.2 Nododd JW, yn ystod cyfarfod diwethaf y Cydbwyllgor Moeseg, fod cyflwyniad ar yr ymarfer peilot a gynhaliwyd a gofynnodd a ellid rhoi diweddariad i'r Bwrdd ar y canlyniadau a'r gwersi a ddysgwyd o'r ymarfer peilot hwnnw.</p> <p>6.3 Gofynnodd HJJ a oedd unrhyw bryderon neu ddiddordeb ymhlith y cyhoedd ar ôl iddo gael ei ddefnyddio yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Nododd CS y byddai'r Heddlu yn holi am hyn a rhoi diweddariad yn y cyfarfod Uwchgyfeirio nesaf. Nododd HJJ nad oedd swyddfa'r Comisiynydd wedi cael unrhyw ohebiaeth gan y cyhoedd mewn perthynas â'r defnydd a wnaed o AFR yn ddiweddar. Roedd CP o'r farn y byddai trafodaeth ynghylch adnabod ethnigrwydd ac anghymesuredd yn fuddiol ac i'w chrosawu yn y cyfarfod nesaf.</p>
7.	Diweddariad ACGTAEM	7.1 Cadarnhaodd CW fod arolygiad PEEL wedi'i gwblhau a bod yr Heddlu yn aros am adborth ffurfiol ac adroddiad.
8.	Unrhyw Fater Arall	8.1 Ni thrafodwyd unrhyw fater arall.

Tabl Camau Gweithredu –

Nifer	Cam Gweithredu	Perchennog
(1)	Cofnodion y Grŵp Aur i'w rhannu â thîm y Comisiynydd mewn perthynas â monitro Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd.	CW